

Hysbysiad Cyhoeddus - 2014

Dan a.78 Deddf Tai (Cymru) 2014:

(2) Ni chaiff awdurdod tai lleol roi sylw i ba un a yw ceisydd wedi dod yn ddigartref yn fwriadol ai peidio at ddibenion adrannau 68 a 75 oni bai bod -

(a) y ceisydd yn dod o fewn categori a bennir o dan isadran (1) y mae'r awdurdod wedi penderfynu, mewn perthynas â'r categori hwnnw, rhoi sylw i ba un a yw ceiswyr o fewn y categori hwnnw wedi dod yn ddigartref yn fwriadol ai peidio, a

(b) yr awdurdod wedi cyhoeddi hysbysiad am ei benderfyniad o dan baragraff (a) sy'n pennu'r categori hwnnw.

Ar 24 Hydref 2022 ychwanegodd Llywodraeth Cymru 11eg categori ymgeisydd a ellir fod ag angen blaenoriaethol i gynnwys "person sy'n cysgu ar y stryd".

Yn ogystal â hynny mae Rheoliadau Digartrefedd (Bwriadoldeb) (Categoriâu Penodedig) (Cymru) (Diwygio) 2022 wedi addasu'r Rheoliadau Digartrefedd (Bwriadoldeb) (Categoriâu Penodedig) (Cymru) 2015 i gynnwys "cysgu ar y stryd" fel yr 11eg categori y gellir ei gymhwyso'n fwriadol.

Mae'r hysbysiad cyhoeddus yn cadarnhau fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi penderfynu cymhwyso digartrefedd bwriadol i'r 11eg categori hefyd, a ddaw i rym ar 24 Hydref 2022.